Adroddiad Blynyddol i'r Moondance Foundation
Ionawr i Ragfyr 2023
The Moondance Foundation Annual Report
January to December 2023

## Crynodeb o'r Adroddiad

Hoffem ddiolch i Ymddiriedolwyr Sefydliad Moondance am y grant o £78,603 yr oeddem yn falch iawn o'i dderbyn ym mis Rhagfyr 2022.
Amcan y cyllid oedd cefnogi ansawdd a chynaliadwyedd Clybiau Gofal Plant All-Ysgol trwy aelodaeth a ariennir a sesiynau gofal plant a chwarae.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni trwy:
Ddarparu aelodaeth wedi'i hariannu'n llawn ar gyfer 850 o Glybiau Gofal Plant All-Ysgol, gan ddefnyddio £46,000 o'r cyllid, gan gefnogi gwell ansawdd a chynaliadwyedd. Trwy aelodaeth wedi'i hariannu, roedd modd i glybiau gael mynediad at lu o adnoddau gan gynnwys bwletinau wythnosol yn cynnwys diweddariadau ar bolisi/deddfwriaeth perthnasol, hyfforddiant a thempledi polisi/gweithdrefn, cyngor a chefnogaeth gan ein harbenigwyr sector ymroddedig ac angerddol.
"Rwy'n hoffi'r ffaith fy mod yn gallu gofyn am help neu gyngor a chael cymorth o safon gyda beth bynnag sydd ei angen arnaf." (Clwb Gofal Plant Alol-Ysgol)

Ein nod oedd cefnogi 2,790 (£65,205) o sesiynau chwarae-gyfoethog yn ein cais, ond diwygiwyd hyn gan ddyfarniad o £32,603 ar gyfer 1,395 o sesiynau. Mae 141 o blant wedi cael cymorth i gael mynediad at gyfanswm o 1,658 o sesiynau Gofal Plant All-Ysgol llawn-chwarae na fyddent wedi cael mynediad iddynt fel arfer, gan ragori ar ein targed yn ôl 263 o sesiynau.

"Rwy'n caru'r clwb, bydden ni'n hoffi dod drwy'r amser" (Plentyn)

Mae'r cyllid hwn yn ei dro wedi cefnogi cynaliadwyedd y clybiau
"Fe helpodd ni i lenwi lleoedd na fyddai wedi cael eu defnyddio fel arall, a rhoddodd waith i staff o ganlyniad". (Clwb Gofal Plant All-Ysgol)

## Report Summary

We would like to thank The Moondance Foundation Trustees for the grant of £78, 603 that we were delighted to receive in December 2022.
The objective of the funding was to support the quality and sustainability of Out of School Childcare Clubs through funded membership and childcare and play sessions.

This objective has been achieved through:
Providing fully funded membership for 850 Out of School Childcare Clubs, utilising £46,000 of the funding; this has supported improved quality and sustainability. Through funded membership clubs were able to access a myriad of resources including weekly bulletins containing relevant policy/legislative updates, training and policy/procedure templates and advice and support from our dedicated and passionate sector experts.
"I like the fact that I can ask for help or advice and receive quality support with whatever I need." (Out of School Childcare Club)

We aimed to support 2,790 (£65,205) play-rich sessions in our application, however this was revised with the award of £32,603 for 1,395 sessions. 141 children have been supported to access a total of 1,658 Out of School Childcare play-rich sessions that they ordinarily would not have had access to, exceeding our target by 263 sessions.

"I love club, I wish I could come all the time" (Child)

This funding has in turn supported the sustainability of the clubs
"It helped us fill places that otherwise would have been unused, and provided staff with work as a consequence". (Out of School Childcare Club)

Mae adroddiad manwl yn manylu ar yr effaith gadarnhaol y mae'r cyllid wedi'i chael ar blant, eu teuluoedd a Chlybiau Gofal Plant All-Ysgol i'w weld isod.

Gwell ansawdd a chynaliadwyedd trwy aelodaeth

Mae aelodaeth wedi'i chynnig i bob clwb ac yn cael ei hyrwyddo'n barhaus, sy'n cefnogi eu hansawdd a'u cynaliadwyedd.

- Mae aelodau'n derbyn bwletinau wythnosol sy'n cynnwys diweddariadau pwysig, syniadau am weithgareddau, hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd ariannu.
- Cylchlythyrau chwarterol: https://bit.ly/479nZ5f
- Mynediad at ein tîm o arbenigwyr y sector sydd ag angerdd, gwybodaeth a phrofiad.
- Mae Adnoddau Newydd ar y pynciau canlynol wedi'u rhannu ag aelodau:
  - maeth
  - cefnogi gwirfoddolwyr
  - gweithgareddau aml -ddiwylliannol
  - cynnwys plant yn y llywodraethu
  - gwella'r defnydd o'r Gymraeg.
- Mae aelodau yn ogystal wedi cael mynediad yn rhad ac am ddim at weminarau a digwyddiadau rhwydweithio ar-lein i gefnogi llywodraethiad o ansawdd, cynaladwyedd ac ymwybyddiaeth o wrth-hiliaeth.
- Hysbysebu gwasanaethau a swyddi gweigion am ddim, sy'n arbennig o bwysig wrth i'r sector wynebu heriau o ran deiliadaeth a swyddi gweigion.

Dangosodd ein harolwg boddhad aelodaeth diweddaraf:

- Y byddai 99% yn argymell aelodaeth i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol eraill (neu leoliadau gofal plant a Gwaith Chwarae eraill).

An in-depth report detailing the positive impact the funding has made to children, their families and Out of School Childcare Clubs is seen below.

Improved quality and sustainability through membership

Membership has been offered to all clubs and is promoted on an ongoing basis, which supports their quality and sustainability.

- Members receive weekly bulletins with important updates, activity ideas, training, employment and funding opportunities.
- Quarterly newsletters: https://bit.ly/479nZ5f
- Access to our team of sector experts with passion, knowledge and experience.
- New Resources have been shared with members on topics such as:
  - nutrition
  - supporting volunteers
  - multicultural activities
  - involving children in governance
  - improving the use of Welsh.
- Members have also had free access to webinars and online network events to support quality, governance, sustainability and anti-racism awareness.
- Free advertising of services and job vacancies which is particularly important as the sector faces occupancy and job vacancy challenges.

Our last annual membership satisfaction survey demonstrated that:

- 99% would recommend membership to other Out of School Childcare Clubs (or other childcare and Playwork settings).

- Bod 94% yn cytuno eu bod wedi cael mynediad at wybodaeth ac adnoddau perthnasol trwy wefan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, cylchlythyr a chyfathrebiadau e-bost.
- Bod 92 % o glybiau'n fodlon ar y gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae ein clwb wedi'u derbyn gennym.
- Bod 90% yn cytuno y rhoddwyd cyngor priodol (naill ai'n bersonol neu drwy gyfathrebu electronig) i sefydlu a/neu redeg y busnes gofal plant yn gyfreithlon.

Sylwadau Aelodau:
"Fel lleoliad aethom trwy gyfnod heriol iawn yn ailgofrestru gydag AGC fel elusen ar ddiwedd 2022. Roedd eich cefnogaeth ar yr adeg hon yn anhepgor ac rwy'n credu'n llwyr hebddi na fyddem bellach yn gallu cefnogi'r rhieni sy'n gweithio yn ein hardal a byddem wedi gorfod cau ein drysau am y tro olaf. Roedd y staff yn eich tîm a arweiniodd ni drwodd yn anhygoel ac ni allwn ddiolch ddigon iddynt."

"Rwy'n hoffi'r ffaith fy mod yn gallu gofyn am help neu gyngor a chael cymorth o safon gyda beth bynnag sydd ei angen arnaf."
"Cymorth enfawr drwy gydol Covid a bod yn hyrwyddwr/llais parhaus ar gyfer y sector Gofal Plant gyda Llywodraeth Cymru. Maent yn llawn cymorth ac yn hawdd siarad â nhw, ac mae'r sgyrsiau Zoom rheolaidd yn hynod fuddiol i'r lleoliad."

Ganol mis Hydref 2023, lansiwyd ein harolwg clwb blynyddol. Ar hyn o bryd rydym yn cysylltu â lleoliadau ledled Cymru i ofyn am eu mewnbwn. Ni yw llais y Sector Gofal Plant All-Ysgol, ac rydym am sicrhau ein bod yn cynrychioli'n gywir anghenion clybiau ar lefel leol a chenedlaethol ynghyd â darparu cefnogaeth yn seiliedig ar eu hanghenion.

- 94% agree that they have had access to relevant information and resources through Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs website, newsletter and email communications.
- 92% of clubs are satisfied with the support and services our club has received from us.
- 90% agree they have been given appropriate advice (either in person or through electronic communications) to set up and/or run the childcare business legally.

Members comments:
"As a setting we went through a very challenging time re-registering with CIW as a charity at the end of 2022. Your support at this time was indispensable and I fully believe without it we would no longer be able to support the working parents in our area and would have had to close our doors for a final time. The staff in your team that guided us through were amazing and I couldn't thank them enough."

"I like the fact that I can ask for help or advice and receive quality support with whatever I need."
"A huge support throughout Covid and being an ongoing champion/voice for the Childcare sector with Welsh government. Helpful, approachable & the regular zoom chats are hugely beneficial for setting. Thank you."

Mid-October 2023 saw the launch of our annual club survey. We are currently contacting settings across Wales to ask for their input. We are the voice of the Out of School Childcare Sector, and we want to ensure we are accurately representing the need of clubs on both a local and national level along with delivering support based on their needs.

## Gwell hygyrchedd a chynaliadwyedd trwy gynllun grant lleoedd a ariennir

Lansiwyd ein cynllun grant lleoedd-a-ariennir yn y flwyddyn ariannol newydd gan roi mynediad i deuluoedd a phlant, (nad fyddent fel arfer yn gallu fforddio'r ddarpariaeth), i brofiadau cyfoethog o chwarae gyda'u ffrindiau, gan gefnogi ymgysylltiad cymdeithasol a lles meddyliol.

Nifer targed y sesiynau trwy gydol y cyllido oedd **1,395** ac er mwyn galluogi cymaint o blant â phosibl i gael mynediad at gyfleoedd chwarae-gyfoethog; gallai Clybiau Gofal Plant Allysgol a oedd yn gofrestredig ag Arolygiaeth Gofal Cymru wneud cais am hyd at 4 sesiwn wedi'u hariannu bob wythnos. Cynigiwyd dwy rownd o gyllid, Mai 1af i Awst 31 ain a Medi 1af i Ragfyr 31ain.

Gofynnodd 47 o leoliadau am ffurflen gais i wneud cais am y cyllid, a 34 o leoliadau'n cyflwyno a chael cyllid, gan alluogi **141** o blant i gael mynediad i gyfanswm o **1,658** o sesiynau chwarae-gyfoethog Gofal Plant All-Ysgol na fyddent fel arfer wedi cael mynediad iddynt, gan ragori ar y targed yn ôl 263 o sesiynau.

Er mwyn mesur yr effaith, gofynnwyd i'r lleoliadau ddarparu'r monitro yn achos eu hunain, y plant a'r rhieni ar ddiwedd cyfnod eu grant. Mae'r canlynol yn gasgliad o'r ymatebion yr ydym wedi'u derbyn hyd yn hyn:

### Plant:

Mae pob Clwb Gofal Plant All-Ysgol yn rhoi sylw dyledus i Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn lle mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn yn rhydd ar bob mater sy'n effeithio arnynt. Mae'n bwysig cael adborth y plant a fynychodd sesiynau chwarae cyfoethog drwy'r cyfnod cyllido hwn. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r plant a chafwyd yr ymatebion a ganlyn:

- Roedd 100% wedi mwynhau mynychu.
- Dywedodd 100% eu bod wedi rhoi cynnig ar rywbeth newydd.

## Improved accessibility and sustainability through a funded places grant scheme

Our funded places grant scheme was launched in the new financial year giving families and children, (not normally able to afford provision), access to play-rich experiences with their friends, supporting social engagement and mental wellbeing.

The target number of sessions through the funding was **1,395** and in order to enable as many children as possible access to play-rich opportunities; Care Inspectorate Wales registered Out of School Childcare Clubs could apply for up to 4 funded sessions per week. Two rounds of funding were offered, May 1st to August 31st and September 1st to December 31st.

47 settings requested an application to apply for the funding with 34 settings submitting and being awarded funding, enabling **141** children access to a total of **1,658** Out of School Childcare play-rich sessions that they ordinarily would not have had access to, exceeding the target by 263 sessions.

To measure the impact the funding settings were asked to provide monitoring from themselves, the children and the parents at the end of their grant period. The following is a collation of the responses we have received to date:

### Children:

All Out of School Childcare Clubs have due regard to Article 12, UN Convention on the Rights of the Child where children have the right to express their views freely in all matters that affect them. It is important to gain the feedback of the children who attended play-rich sessions through this funding. The children were asked a series of questions with the responses as follows:

- 100% enjoyed attending.
- 100% stated they had tried something new.

- Dywedodd 100% eu bod wedi treulio amser gyda'u ffrindiau.
- Dywedodd 88% eu bod wedi cyfarfod â phobl newydd.

- 100% said they had spent time with their friends
- 88% said they had met new people.

Pan ofynnwyd "Beth yw eich hoff beth am y clwb?" roedd yr ymatebion yn cynnwys:

"Rwy'n hoffi gwneud ffrindiau newydd a chwrdd â phobl newydd. Rwy'n hoffi tynnu lluniau ac ysgrifennu straeon. Rwyf wrth fy modd yn cael sgyrsiau gyda'r merched sy'n gweithio yn y clwb a dangos fy straeon iddynt. Rwy'n edrych ymlaen at y dyddiau y byddaf yn dod i'r clwb."

"Gwnes i ffrindiau newydd, rwy'n hoffi peintio a lliwio"

Gofynnwyd i'r plant hefyd "Oes yna unrhyw beth nad ydych chi'n ei hoffi am y clwb?"

Er bod mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn newydd nodi "na", ymhelaethodd 3 phlentyn ar yr ymateb hwn:

"Na, dwi'n caru'r clwb, hoffwn ni ddod drwy'r amser."

"Bwyd – weithiau roeddwn i'n hoffi'r bwyd weithiau doeddwn i ddim."

Ac i un plentyn yr unig beth nad oedd yn ei hoffi am y clwb oedd: "amser mynd gartref".

When asked "What is your favourite thing about the club?" responses included:

"I like making new friends and meeting new people. I like to draw and write stories. I love having chats with girls who work at club and showing them my stories. I look forward to the days I come to club."

"I made new friends I like painting and colouring"

The children were also asked "Is there anything you do not like about the club?"

While the majority of responses to this question just stated "no", 3 children expanded on this response:

"No I love club, I wish I could come all the time."

"Food - sometimes I liked the food sometimes I didn't."

And for one child the only thing they did not like about club was: "home time".

### Rhieni:

Dywedodd 100% o'r rieni fod eu plentyn/plant yn mwynhau mynychu'r clwb. Pan ofynnwyd iddynt sut oedd mynd yno wedi bod o fudd i'w plentyn, rhoddwyd cyfres o opsiynau iddynt a nodwyd y buddion canlynol:

- 80% wedi gwella'u hymddygiad
- 80% o ran cymdeithasiad
- 94% o ran bod yn actif
- 100% o ran cael hwyl

### Parents:

100% of parents stated that their child/ren enjoyed attending the club. When asked how attending had benefitted their child, parents were given a series of options and cited the following benefits:

- 80% improved behaviour
- 80% socialisation
- 94% being active
- 100% having fun

- 80% yn ymddangos yn hapusach
- 100% yn rhoi cynnig ar bethau newydd

Rhoddwyd cyfle i rieni roi adborth ar fuddion eraill i'w plentyn/plant, ymhlith yr ymatebion a dderbyniwyd yr oedd:

"Rydym mewn llety dros dro ar hyn o bryd. mae'n fflat bach 2 ystafell wely heb le a dim gardd. Mae'r clwb wedi rhoi'r cyfle iddynt fynd allan a chael mwy o le."

"Mae'r plant bob amser yn hapusach pan maen nhw'n gwybod eu bod nhw'n mynd i'r clwb."

Gwyddom y gall plant sy'n mynychu Gofal Plant All-Ysgol fod o fudd i'r rhieni hefyd, pan wnaethom ni ofyn sut, dyma a ddywedon nhw:

"Mae wedi rhoi'r amser i mi deithio yn ôl ac ymlaen i ysbyty'r Mynydd Bychan i helpu fy mhartner gyda'i adsefydlu ar ôl ei ddamwain. Rwy'n ddiolchgar iawn, Diolch."

"Ie cryn dipyn. Rwyf wedi gallu gweithio oriau hirach, ac fel tad gweddw, wedi cael peth amser i mi fy hun."

## Dywedodd Lleoliadau Gofal Plant All-Ysgol:

Mae'r cyllid nid yn unig wedi caniatáu cyfleoedd i blant chwarae ond hefyd wedi cefnogi cynaliadwyedd lleoliadau Gofal Plant All-Ysgol.

Bu modd i leoliadau'n gynnig sesiynau ar ddiwrnodau pan fyddent wedi ystyried cau oherwydd niferoedd isel, dywedodd un lleoliad:
"Fe wnaeth ein helpu i lenwi lleoedd na fyddent wedi cael eu defnyddio fel arall, a rhoi gwaith i staff o ganlyniad."

Er nad oedd gan bob lleoliad blant ag anghenion ychwanegol yn mynychu'r sesiynau, mae gan 100%

- 80% seem happier
- 100% trying new things

Parents were given the opportunity to feedback on other benefits to their child/ren some of the received responses included:

"We are currently in temp accommodation. it is a tiny 2 bed flat with no space and no garden. The club has given them the opportunity to get out and have more space."

"The children are always happier when they know they are attending club."

We know that children attending Out of School Childcare can also benefit the parents, when we asked them how, they said:

"It's allowed me time to travel back + fore to the Heath hospital to help my partner with his rehabilitation after his accident. I'm very grateful Thank you."

"Yes quite a lot. I have been able to work longer hours and have some time for myself being a widowed father."

## Out of School Childcare settings said:

The funding has not only allowed children opportunities to play but has also supported the sustainability of Out of School Childcare settings.

Settings were able to offer sessions on days where they would have considered closing due to low attendance, one setting stated:
"It helped us fill places that otherwise would have been unused, and provided staff with work as a consequence."

While not all settings had children with additional needs attending the sessions 100% of the settings

o'r lleoliadau bolisi anghenion ychwanegol ac maent yn darparu gwasanaeth cynhwysol.

have an additional needs policy and provide an inclusive service.

Roedd 100% o'r lleoliadau yn meddwl eu bod wedi helpu i gefnogi ymgysylltiad cymdeithasol a lles meddyliol.

100% of the settings thought they helped support social engagement and mental wellbeing.

"Mae'r plant wedi mwynhau rhyngweithio cymdeithasol, mae wedi bod yn hyfryd eu gweld yn magu hyder."

"The children have enjoyed social interaction, it's been lovely to see them grow in confidence."

"Ie, oherwydd gallai'r plentyn a'r plant eraill sy'n mynychu gymysgu gyda phlant amrywiol, cael llawer o wahanol gyfleoedd chwarae a dysgu, bod yn gynhwysol gydag eraill a dilyn cyfarwyddiadau. Roedd bod allan a chwarae yn fuddiol iawn i'r plant gyda chwarae amrywiol. Fe wnaethom gefnogi plant a oedd yn bryderus am fynychu ond unwaith gyda ni fe ddaethant yn fwy hyderus gyda'r clwb, gyda phlant o wahanol oedrannau a chyda'r staff."

"Yes, as the child and other children attending could mix with various children, lots of different play opportunities and the learning, of being inclusive with others and following directions. Being outside and playing was very beneficial for the children with varied play. We supported children who were anxious about attending but once with us they grew in confidence with the club with children of various ages and staff."

"Wedi gweld cymaint o welliant – y plentyn wedi setlo, hapus ac wedi gwneud llawer o ffrindiau - Diolch :-)"

"Seen so much improvement - child is settled, happy and has made loads of friends - Thank you :-)"

Yn ogystal â'r monitro roedd 2 leoliad am gysylltu â ni i dynnu sylw at yr effaith y mae'r cyllid wedi'i chael, mae'r cyntaf gan leoliad, a'r sylwadau terfynol gan riant; cawsant eu hanfon ymlaen atom o'r lleoliad:

In addition to the monitoring 2 settings wished to contact us to highlight the impact the funding has made, the first is from a setting, the final comments are made by a parent, forwarded to us from the setting:

Y Lleoliad:
"Derbyniodd ein lleoliad arian Moondance â diolch. Er bod gennym niferoedd da Ddydd Llun i Ddydd Iau, rydym yn aml yn cael trafferth llenwi lleoedd ar ddydd Gwener sy'n golygu na allwn dalu costau.

Ar dderbyn arian lleoedd-a-gynorthwyir Moondance, cysylltais â'n hysgol gynradd leol. Mae'r ysgol yn ardderchog am weithio gyda phlant bregus a difreintiedig, ac roedd yn falch o allu cefnogi 4 o blant dros yr haf trwy drosglwyddo eu henwau i ni. Cyfarfûm â'r dirprwy bennaeth, a ddywedodd y byddent yn blaenoriaethu plant lle'r oedd yn hysbys nad oedd ganddynt yr arian i gefnogi gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol, yn

The Setting:
"The Moondance funding was gratefully received by our setting. Although we have healthy numbers Monday-Thursday, we often struggle to fill spaces on a Friday meaning that we cannot cover costs.

On receipt of the Moondance assisted-spaces fund, I made contact with our local Primary school. The school is excellent at working with vulnerable and disadvantaged children and were pleased to be able to support 4 children over the summer by passing their names to us. I met with the deputy head, who said they would

ogystal â phlant a fyddai'n elwa o gyfleoedd cymdeithasol parhaus drwy wyliau'r haf. Fe wnaethom gynnig i'r 4 plentyn hyn (o 3 theulu) un sesiwn yr wythnos am bob wythnos yr oeddem yn agor yn ystod gwyliau'r haf.

Roedd yn wych i bob plentyn gael mynediad i'n clwb, ac yn wych i ni groesawu plant newydd i'r grŵp. Roedd y plant a ariannwyd gan Moondance rhwng 4 a 10 oed, a phob un o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel. Mae ein lleoliad yn cynnig elfennau ysgolion coedwig, digon o chwarae yn yr awyr agored a mynediad i risgiau wedi'u rheoli. Mae gennym hefyd weithwyr chwarae rhagorol sy'n cefnogi plant pryderus i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp mewn ffordd holistaidd ysgafn.

Roedd un plentyn penodol nad oedd erioed wedi mynychu darpariaeth y tu allan i'r ysgol o'r blaen. Mynychodd ei sesiwn gyntaf gyda ni ac roedd yn swil iawn; roedd yn anodd ymgysylltu â hi ac roedd yhn encilgar. Roedd mam (a oedd yn ei gollwng yno) hefyd yn bryderus ac yn amharod i ymgysylltu â'r gweithwyr chwarae. Aeth y gweithwyr chwarae ati'n dyner i gyflwyno gemau, gweithgareddau a chefnogi cymdeithasoli.

Drwy gydol yr haf, daeth y plentyn yma i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau, gwnaeth ffrindiau yn y lleoliad ac erbyn ei sesiwn olaf roedd yn drist i adael - roedd ei hosgo, y ffordd y siaradodd a'i hyder mor wahanol i'r adeg y ymunodd â'r sesiynau ar ddechrau'r haf. Cymerodd y plentyn yma amser i ffarwelio â nifer o ffrindiau yr oedd wedi'u gwneud yn y lleoliad yn ogystal â'r gweithwyr chwarae yr oedd wedi ffurfio cysylltiad â nhw. Daeth Mam yn fwy siaradus gyda'r gweithwyr chwarae trwy gydol yr haf, a diolchodd i ni am y sesiynau.

Mae cronfa Moondance wedi bod mor wych i'r lleoliad, ac i blant a rhieni."

prioritise children who are known not to have the funds to support out of school activities, as well as children who would benefit from continued social opportunities through the summer holidays. We offered these 4 children (from 3 families) one session per week for each week we opened in the summer holidays.

It was fantastic for all children to have access to our club, and great for us to welcome new children into the group. The Moondance funded children were aged between 4 and 10, and all came from low socio-economic backgrounds. Our setting offers forest schools elements, plenty of outdoor play and access to managed risks. We also have excellent playworkers who support anxious children to partake in group activities in a gentle holistic manner.

One particular child had never attended an out of school provision before. She attended her first session with us and was very shy, difficult to engage with and reserved. Mum (who dropped off) was also anxious and reluctant to engage with the playworkers. Playworkers took a gentle approach to introducing games, activities and supporting socialisation.

Throughout the summer, this child became more engaged in activities, made friends at the setting and by her final session was sad to be leaving- her posture, the way she spoke and her confidence was so different to when she joined the sessions at the start of summer. This child took time to bid farewell to several friends she had made at the setting as well as the playworkers she had formed a connection with. Mum became more talkative with the playworkers throughout the summer, and thanked us for the sessions.

The Moondance fund has been so fantastic for the setting and children and parents."

Rhiant:

"Diolch yn fawr iawn am roi gwybod i mi am y cyllid posibl ar gyfer sesiynau 'enw'r lleoliad'. Heb os, bydd y sesiynau hyn yn fuddiol iawn i'n teulu. Mae 'enw'r plentyn' gyda ni ar sail maethu tymor-hir ac mae hi wedi dod ar draws sawl trawma yn ei bywyd byr (marwolaeth ei thad pan oedd yn fabi, esgeulustod, a llawer o gam-drin domestig ym mherthnasoedd ei mam. Bu'n dyst i un o bartneriaid ei mam yn ceisio lladd ei mam). Daeth i fyw gyda ni 4 blynedd yn ôl ar ôl symud yma o dramor. Ym mis Awst 2023 bu farw ei mam, sioc fawr arall iddi. Mae hi yn y broses o gael ei hasesu ar gyfer gwahanol bethau. Mae ganddi orsymudedd, posibilrwydd uchel iawn bod ganddi Anhwylder Sbectrwm Alcohol y Ffetws, a hefyd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n cael asesiadau yn yr Ysgol ac rydym yn aros i'r Seicolegydd Addysg wneud asesiad hefyd.

Mae'r gamdriniaeth a'r esgeulustod a ddioddefodd pan oedd hi'n iau wedi cael effaith enfawr ar ei bywyd. Mae ei Sgiliau Cymdeithasol yn wael iawn, mae hi'n cael anhawster mawr i wrando a chanolbwyntio ac mae hi'n orfywiog iawn, mae hi ar fynd bob amser. Bydd y sesiynau o fudd mawr iddi, bydd yn gyfle iddi gymysgu gyda phlant eraill mewn amgylchedd gwahanol i Ysgol. Mae hi'n mwynhau mynd i'r ysgol yn fawr iawn ond mae hi'n cael anawsterau gyda'r gwaith, mae hyn yn gwneud iddi deimlo'n rhwystredig iawn a gall fod yn eithaf heriol.

Bydd y sesiynau yn golygu y gall hi gymysgu gyda phlant gwahanol, dysgu trwy chwarae heb y straen o orfod gwneud gwaith. Dros amser bydd hyn yn helpu gyda'i sgiliau cymdeithasol, ei sgiliau echddygol bras a'i sgiliau personol. Bydd hefyd yn gyfle gwych i'r 'mab' gael ychydig o amser tawel gan fod ganddo ef rai anghenion ychwanegol hefyd ac mae weithiau'n cael ei lethu'n fawr, yn enwedig gan y 'plentyn'. Mae hithau'n cymryd llawer o'n hamser gartref oherwydd ei hanghenion amrywiol a gall hyn gael effaith fawr ar y 'mab'; y mae weithiau'n llethol iddo. Bydd yr amser hwn pan fydd hi yn 'y lleoliad' yn golygu y gall gael amser tawel

Parent:

"Thank you so much for letting me know about the potential funding for 'setting name' sessions. These sessions will no doubt be very beneficial to our family. 'Child's name' is with us on a long-term fostering basis and she has encountered a lot of trauma in her short life (her father's death when she was a baby, neglect and there was a lot of domestic abuse in her mother's relationships. She witnessed one of her mother's partners trying to kill her mum). She came to live with us 4 years ago after moving here from overseas. In August 2023 her mother passed away, another big shock for her. She is in the process of being assessed for various things. She has hypermobility, very high possibility she has Foetal Alcohol Spectrum Disorder, and also additional learning needs. She is having assessments in School and we are waiting for and Educational Psychologist to make assessment too.

The abuse and neglect she endured when she was younger has had a huge impact on her life. Her Social Skills are very poor, she has great difficulty in listening and concentrating and she is very hyperactive, she is on the go at all times. The sessions will be of great benefit for her, it will be a chance for her to mix with other children in a different environment to School. She thoroughly enjoys going to school but she has difficulties with the work, this makes her feel very frustrated and can be quite challenging.

The sessions will mean that she can mix with different children, learn through play without the stress of having to do work. Over time this will help with her social skills, her gross motor skills and her personal skills. It will also be a great opportunity for 'son' to have a little quiet time as he has some additional needs too and can get very overwhelmed, especially by 'child'. She takes up a lot of our time at home because of her various needs and this can have a big effect on 'son'; and it can be overwhelming for him. This

dim ond gyda ni. Bydd hefyd o fudd i ni gan y gall fod yn llethol iawn byw gyda rhywun sydd â chymaint o anghenion ac ymddygiad heriol. Mae hi'n ferch hoffus iawn sydd â llawer o anghenion ychwanegol, gorau po fwyaf o amser y gall ei dreulio gyda phlant eraill.

Mae hi'n mwynhau mynd i'r 'lleoliad' dros y gwyliau yn fawr iawn, bydd bob tro'n gadael â gwên lydan ar ei hwyneb. Dwi'n gwybod y bydd y gofal a'r meithrin y mae'n eu cael o'r 'lleoliad' o fudd iddi hi ac i ni."

time when she will be at setting will mean he can have some quiet time with just us. It will also benefit us as it can be very overwhelming living with someone with so many needs and challenging behaviour. She is a very loveable girl that has a lot of additional needs, the more time she can spend with other children the better.

She thoroughly enjoys going to 'setting' over the holidays, she always leaves with a huge smile on her face. I know with the care and nurturing she gets from 'setting' will be very beneficial to her, and us."

## Diolch The Moondance Foundation

Rydym yn mawrbrisio ac yn gwerthfawrogi'r ariannu a dderbyniwyd gan The Moondance Foundation. Y mae wedi galluogi mwy o Glybiau Gofal Plant All-Ysgol i gael mynediad at arweiniad ac adnoddau penodol ar eu cyfer nhw, ac wedi ein galluogi i hwyluso cyfleoedd i'r plant chwarae.

## Thank you The Moondance Foundation

We value and appreciate the funding received by The Moondance Foundation. It has allowed increased Out of School Childcare Clubs to access bespoke guidance and resources and enabled us to facilitate opportunities for children to play.